***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 922 (Cy.87)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Morgannwg (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 29 o Atodlen 3 iddi(**1**) ac ar ôl cwblhau'r ymgynghori statudol fel y'i rhagnodwyd o dan baragraff 29(4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Morgannwg (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008 a daw i rym ar 1 Ebrill 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") "yw 1 Ebrill 2008;

ystyr "yr hen ymddiriedolaeth" ("*the old trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Morgannwg a sefydlwyd ar 19 Chwefror 1996;

ystyr "yr ymddiriedolaeth newydd" ("*the new trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf a sefydlwyd ar 12 Mawrth 2008.

**Trosglwyddo cyflogeion i'r trosglwyddai**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), trosglwyddir contract cyflogaeth unrhyw berson a oedd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei gyflogi gan yr hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo a bydd y contract hwnnw'n effeithiol fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y person a gyflogir felly a'r ymddiriedolaeth newydd.

(**1**) 2006. p.42.
(**2**) Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymgynghori ar Sefydlu a Diddymu) 1996, O.S. 1996/653, sy'n parhau i gael effaith yn rhinwedd paragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006. p.43.

(2) Heb ragfarnu paragraff (1) uchod —

(a) yn rhinwedd yr erthygl hon, trosglwyddir yr holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau o dan gontract neu mewn cysylltiad â chontract y mae'r paragraff hwnnw'n gymwys iddo i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo;

(b) bernir bod unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan yr hen ymddiriedolaeth neu mewn perthynas â hi ynglŷn â'r contract hwnnw neu'r cyflogai hwnnw, o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen wedi'i wneud gan yr ymddiriedolaeth newydd neu mewn perthynas â hi.

(3) Nid yw paragraffau (1) a (2) uchod yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan unrhyw gyflogai i derfynu ei gontract cyflogaeth os gwneir newid sylweddol er niwed i'r cyflogai yn ei amodau gwaith, ond ni fydd unrhyw hawl o'r fath yn codi yn unig oherwydd y newid mewn cyflogwr a berir gan yr erthygl hon.

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**3.** Ar y dyddiad trosglwyddo trosglwyddir holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r hen ymddiriedolaeth, sydd heb eu crybwyll yn erthygl 2 uchod, i'r ymddiriedolaeth newydd gan gynnwys heb gyfyngiad—

(a) Y ddyletswydd i baratoi'r cyfrifon sydd heb eu cwblhau gan yr hen ymddiriedolaeth a chyflawni'r holl ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r cyfrifon hynny;

(b) Eiddo ymddiriedol yr hen ymddiriedolaeth a restrir yn Atodlen 1.

(c) Eiddo ymddiriedol elusennol yr hen ymddiriedolaeth a restrir yn Atodlen 2.

**Trosglwyddo swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd**

**4.** Trosglwyddir holl swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd a byddant yn cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Mawrth 2008

## ATODLEN 1

Erthygl 3(b)

| *Eiddo* | *Deiliadaeth* | *Cofrestr Tir* |
|---|---|---|
| **Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Morgannwg** | | |
| **Ysbyty** | | |
| Tywysog Charles | Rhydd-ddaliad | WA794505 |
| Cyffredinol Aberdâr | Rhydd-ddaliad | WA794503 |
| Santes Tudful | Rhydd-ddaliad | WA794584 |
| Aberpennar | Rhydd-ddaliad | WA794490 |
| **Clinigau/ Canolfannau Iechyd Canolfan Adnoddau Iechyd Meddwl** | | |
| Canolfan Iechyd Abercynon, Ffordd Ynysmeurig, Abercynon, Rhondda Cynon Taf, CF45 4SU | Lesddaliad | |
| Aberdâr | Rhydd-ddaliad | WA794527 |
| Aber-fan | Rhydd-ddaliad | WA794484 |
| | | WA794534484 |
| Hirwaun | Rhydd-ddaliad | WA707946 |
| Hollies | Rhydd-ddaliad | WA794547 |
| Tŷ Campsie, Merthyr | Rhydd-ddaliad | WA794534 |
| Seymour Berry | Rhydd-ddaliad | WA794517 |
| Treharris | Rhydd-ddaliad | WA794595 |
| **Arall** | | |
| Uned 7A, Ystâd Ddiwydiannol Cyfarthfa, CF47 8PE | Lesddaliad | |

## ATODLEN 2

Erthygl 3(c)

Cronfa Elussennol Gyffredinol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg (gan gynnwyws pob is-elusen) —Rhif 1060880.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Morgannwg i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf o 1 Ebrill 2008 ymlaen.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Morgannwg i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf ar 1 Ebrill 2008.